


# Dathlu Dillad Ail Law

Rydyn ni wedi gweld cryn dipyn yn y newyddion dros y flwyddyn ddiwethaf am effaith amgylcheddol ffasiwn ar ein planed. Mae'r diwylliant o daflu dillad yn cael effaith enfawr ar ein hinsawdd, afonydd lleol a chyflenwadau dŵr.

Un o'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o hyn yw'r Môr Aral rhwng Kazakhstan ac Uzbekistan, a oedd unwaith yn fwy na Chymru gyfan. Arweiniodd dargyfeirio'r ddwy brif afon a oedd yn bwydo'r môr i ddarparu dŵr ar gyfer planhigfeydd cotwm enfawr at y môr yn sychu bron yn llwyr, a gafodd effaith ddinistriol ar bobl leol a bywyd gwyllt.



Mae un crys-t yn unig yn defnyddio cymaint o ddŵr i'w gynhyrchu ag y byddai rhywun yn ei yfed mewn tair blynedd gyfan! Byddai'r CO2 o wneud un pâr o jîns yr un peth â gyrru tua wyth milltir mewn car cyffredin.

Er mwyn ceisio arafu ein defnydd o ddillad, rydym wedi gweld cynnydd mawr mewn uwchgylchu ac aildefnyddio dillad. Mae hyn yn rhywbeth hawdd, hwyliog a phositif y gallwn ei wneud i'n planed. Rydym ni wedi gweld rhai prosiectau uwchgylchu gwyh mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym ni wedi bod wrth ein bodd yn clywed amdany'n nhw.

**Eich her** yw cynnal diwrnod yn yr ysgol lle mae pawb yn gwisgo o leiaf un eitem o ddillad sydd wedi'i haildefnyddio (neu fwy os gallwch chi). Gallai fod yn siwmpwr sydd wedi'i drosglwyddo wrth rywun arall, crys-t o siop elusen neu bâr o siorts wedi'u hailgylchu.

Bydd yn bwysig ei gysylltu ag effeithiau amgylcheddol dillad er mwyn helpu i ledaenu'r neges a grymuso pobl i gymryd cam hawdd a phositif er lles y blaned.

Byddai'n wych ei gysylltu â diwrnod 'anghofio'r car' neu hyd yn oed 'diwrnod yn y tywyllwch' i bwysleisio ymhellach rai gweithredoedd positif y gall pob un ohonom eu gwneud.

**Gweithgaredd pellach:** Os nad ydych chi'n gwneud yn barod, ystyriwch sefydlu siop gyfnewid reolaidd yn yr ysgol ar gyfer dillad, teganau, llyfrau, gemau neu unrhyw beth arall y gallwch chi feddwl amdano. Os ydych chi'n teimlo'n hynod glyfar, fe allech chi weithio allan faint o ddŵr rydych chi wedi'i arbed o'r holl ddillad sydd wedi cael ail fywyd; pa mor gyflym allwch chi lenwi pwll nofio?

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n cymryd rhan mewn her drwy e-bostio [eco-schools@keepwalestidy.cymru](mailto:eco-schools@keepwalestidy.cymru) neu drydar @EcoSchoolsWales